

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

Ymgynghoriad Safon Ansawdd Tai Cymru

Crynodeb o Ymatebion



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2022

Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 2 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Twitter: [@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)

Mwy o wybodaeth

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn amodol ar hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill; ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Marianne Kell, Beth Tweddell, Llorenc O'Prey

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Marianne.kell@wavehill.com

Dyddiad y ddogfen: 21/12/2022

Fersiwn: Terfynol

Manylion y cleient

Yr Adran Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

Cefndir i'r Safon

Amcan allweddol Llywodraeth Cymru yw **gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol ar draws Cymru a gostwng eu heffaith amgylcheddol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi drafftio diweddariad i Safon Ansawdd Tai Cymru i wella ymhellach tai cymdeithasol ar draws Cymru gan adeiladu ar lwyddiannau'r safon gyfredol sydd wedi bod mewn grym er 2002. Ceisia'r cynigion gryfhau'r darpariaethau cyfredol ac ymestyn ffocws y Safon i feysydd newydd. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni a dŵr, ac ychwanegu elfennau sy'n perthyn i lorïau a sŵn. Yn greiddiol iddi, mae'r Safon newydd arfaethedig yn **canolbwyntio ar y tenant**. Felly, mae'r cynigion wedi'u cynllunio i uwchraddio cartrefi cymdeithasol mewn ffordd sy'n cyfrannu at **iechyd cadarnhaol**, ac yn **gwella canlyniadau addysg a llesiant** i denantiaid.

Am wybodaeth bellach am y cynigion, megis crynodeb o'r cwmpas a meysydd ffocws allweddol y Safon, cysylltwch â Llywodraeth Cymru trwy flwch negeseuon e-bost housingqualitystandard@gov.wales.

Gan adeiladu ar lwyddiannau Safon 2002, nod y cynigion yw diweddaru ac ehangu'r meysydd yr ymdrin â nhw trwy'r Safon newydd arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys ystyried **beth y mae tai cymdeithasol o ansawdd uchel yn ei olygu**, a chyflwyno technolegau carbon isel sy'n gwella ansawdd cartrefi. Awgryma'r cynigion ddiweddariadau i feysydd ffocws cyfredol, gan gynnwys:

- Casglu data ac adrodd
- Polisiâu cydymffurfio, a
- Diogelwch tân a thrydanol.

Anela'r cynigion hefyd at **ehangu ffocws y Safon** i feysydd newydd. Mae hyn yn ystyried materion a blaenoriaethau ehangach o fewn cyd-destun byd-eang sy'n newid, gan gynnwys fforddiadwyedd a gostwng effaith amgylcheddol tai cymdeithasol. Mae meysydd ffocws newydd o fewn y cynigion yn cynnwys:

- Cynhesrwydd fforddiadwy ac effaith amgylcheddol
- Lorïau
- Effeithlonrwydd dŵr
- Bioamrywiaeth
- Teithio llesol, a
- Niwsans sŵn.

Proffil ymatebwyr

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynrychioli ystod amrywiol o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, landlordiaid cymdeithasol a grwpiau eraill â diddordeb. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol dros uchelgais y Safon, a dealltwriaeth o pam y mae ei hangen. Ar draws sawl agwedd o'r Safon, roedd barn rhanddeiliaid yn cwmpasu ystod eang o safbwyntiau: o'r cynigion yn rhy uchelgeisiol, hyd at heb fod yn ddigon uchelgeisiol. Roedd hyn yn adlewyrchu gwahanol flaenoriaethau'r grwpiau rhanddeiliaid ac roeddynt yn dueddol o hysbysu safbwyntiau tuag at agweddau penodol o'r cynigion.

I gyd, cafwyd 282 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ar-lein, trwy e-bost, ac yn ysgrifenedig. O blith y rhain, cafwyd 80 o **ymatebion anghyflawn** trwy'r arolwg ar-lein.

Roedd y 202 o ymatebion cyflawn yn cynnwys **105 o denantiaid** yn byw mewn tai cymdeithasol (52 y cant o'r holl ymatebwyr). Cyfrannodd **32 o landlordiaid cymdeithasol** pellach eu barn (15.8 y cant). Mae'r grŵp landlordiaid cymdeithasol yn cynnwys sefydliadau'r trydydd sector a sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau tai cymdeithasol a chefnogaeth, gan gynnwys rheoli a chynnal cartrefi cymdeithasol ar draws Cymru.

Yn ychwanegol, cyflwynodd **15 o gyrrff cynrychiadol** ymatebion (7.4 y cant). Mae'r grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli tenantiaid, landlordiaid cymdeithasol a llywodraeth leol. Cafwyd cynrychiolwyr hefyd o'r diwydiant adeiladu a darparwyr cadwyn gyflenwi, ynghyd â sefydliadau siartredig sy'n adlewyrchu barn gweithwyr proffesiynol megis syrfewyr.

Ymatebodd **30 o unigolion a sefydliadau eraill** (14.9 y cant), yn cynrychioli ystod amrywiol o sefydliadau, o elusennau tai, grwpiau amgylcheddol, hyd at gyflenwyr unigol i'r sector tai cymdeithasol. Ymatebodd **12 o unigolion** pellach fel arbenigwyr technegol mewn meysydd mor amrywiol â thai cymdeithasol, cadwraeth natur, rheoli natur, a thechnoleg arbed ynni (5.9 y cant). Cynigiodd **wyth o ymatebwyr** eu barn fel aelodau'r cyhoedd (4 y cant).

Dulliau dadansoddi

Ym mis Medi 2022 comisynodd Llywodraeth Cymru Wavehill, sefydliad ymchwil annibynnol, i gynnal y dadansoddiad hwn o ymatebion. Nod y dadansoddiad hwn yw deall a mapio ystod o farnau a safbwyntiau ymatebwyr o ran y Safon arfaethedig.

Gofynnodd yr ymgynghoriad **25 o gwestiynau**, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyflwyno mewn dwy ran:

- Gofynnodd y rhan gyntaf gwestiynau caeedig, h.y. gwahodd ymatebion "ie/na" cychwynnol.
- Yna roedd yr ail ran yn gwahodd atebion ehangach mewn ymateb testun rhydd.
- Roedd 7 cwestiwn yn benagored yn unig, gan wahodd ymatebion testun rhydd.
- O'r rhain, nid oedd gan dri unrhyw gyfyngiad o ran nifer y geiriau.

Edrychwyd ar yr holl ymatebion, gan gynnwys y rhai anghyflawn. Serch hynny, nid yw rhai ymatebion anghyflawn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad terfynol: lle nad oedd hi naill ai'n bosibl sefydlu pa grŵp rhanddeiliaid yr oedd yr ymateb yn ei gynrychioli; a/neu nid yw'r ymatebion wedi darparu awgrymiadau pellach i wella'r Safon, a/neu ni ddarparwyd gwybodaeth ddigonol. Cipiwyd y barnau hyn yn lle hynny a'u cynrychioli mewn man arall yn y dadansoddiad ansoddol.

Trosolwg o ganfyddiadau

Cyflawni'r Safon: Diffiniadau ac uchelgeisiau

Tynnodd yr ymatebion sylw at gefnogaeth glir dros ddiffiniad wedi'i ehangu o dai cymdeithasol. Cydnabuwyd hefyd bod uchelgais y WHQS2023 yn rhagori ar feincnodau'r DU yn ehangach ar gyfer y siwrnai i sero net. Yr hyn a oedd yn llai clir oedd yr ymateb i gydbwysedd y Safon rhwng bod yn feiddgar a bod modd ei chyflawni. Arweiniodd wahaniaethau yn niddordebau a blaenoriaethau rhanddeiliaid ar begynnu barn, teimlodd 91 y cant o landlordiaid bod y Safonau arfaethedig newydd yn methu taro cydbwysedd da rhwng bod yn feiddgar a bod modd ei chyflawni. I'r gwrthwyneb, cytuna 79 y cant o denantiaid bod y Safon yn cyflawni cydbwysedd da.

Roedd yr ymatebion yn cydnabod yn eang (78 y cant o ymatebwyr) bod cael cartref o ansawdd uchel yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Cytunodd 90 y cant o landlordiaid cymdeithasol a 77 y cant o denantiaid â'r datganiad hwn.

Cytunodd 74 y cant o'r holl ymatebion bod y Safon arfaethedig yn cynnwys yr holl feysydd allweddol yr oeddynt yn eu disgwyl. Serch hynny, cafwyd pocedi o anghytuno gan rai o'r grwpiau rhanddeiliaid, yn enwedig ymhlith arbenigwyr technegol (42 y cant), ymatebwyr eraill (38 y cant) a chyrrff cynrychiadol (33 y cant).

Roedd llai na hanner (46 y cant) o'r holl ymatebwyr yn ystyried bod y raddfa amser yn briodol. O'r rhai a anghytunodd, credodd ymron i'r cyfan ohonynt fod y targed a amlinellwyd yn Rhan 3 y Safon yn rhy fuan. Wrth ateb y cwestiwn a ddylai cartrefi cymdeithasol yng Nghymru gydymffurfio â'r Safon erbyn diwedd 2033, anghytunodd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol (94 y cant), yn yr un modd ag arbenigwyr technegol (63 y cant) a chyrrff cynrychiadol (60 y cant). Ar y llaw arall, roedd y tenantiaid yn gefnogol ar y cyfan (62 y cant).

Mae'r Safon arfaethedig yn gosod ystod o rwymedigaethau ar landlordiaid cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a hwyluso diddordeb ac ymgysylltiad tenantiaid wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig ar faterion sy'n effeithio ar eu cymuned a'u hamgylchedd. Yn gyffredinol, roedd 79 y cant o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno. Yr unig grŵp i adrodd ar wahaniaethau barn oedd arbenigwyr technegol, yr oedd 57 y cant ohonynt yn anghytuno.

Rhaid i gartrefi fod yn saff ac yn ddiogel

Ceisïa'r Safon arfaethedig sicrhau bod pob cartref yn cydymffurfio â'r fenter Diogelu Drwy Ddylunio a ddatblygwyd gan yr Heddlu. Anoga'r fenter fabwysiadu dulliau atal trosedd mewn tai newydd a chyfredol i gyflawni safon dda o ddiogelwch ar gyfer y cartref a'r amgylchedd cyfagos. Am ragor o wybodaeth ac arweiniad ar sut y gall cartrefi gyflawni statws Diogelu Drwy Ddylunio, [cliciwch yma](#).

Mae hyn yn cynnwys nodweddion diogelwch ychwanegol ar gyfer drysau a ffenestri, diogelwch tân a larymau ychwanegol, archwiliadau nwy a diogelwch, a systemau gwylidwriaeth. Ar draws yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, awgrymodd lai na hanner (46 y cant) y gellid ychwanegu elfennau diogelwch personol a diogelwch eiddo ychwanegol. Landlordiaid cymdeithasol (83 y cant) a anghytunodd gryfaf â'r cynnig y gellid ychwanegu elfennau diogelwch eiddo a diogelwch personol ychwanegol.

Rhaid i gartrefi fod yn fforddiadwy i'w gwresogi a chael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd

Amcan allweddol y Safon newydd yw gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn er mwyn sicrhau fforddiadwyedd a gostwng tloedi tanwydd, ynghyd â gwella perfformiad amgylcheddol cartrefi. Trwy ystod o fesurau technoleg garbon isel, ôl-osodiadau a gwelliannau, mae'r Safon yn cynnig y dylai cartrefi cymdeithasol gyflawni'r Dystysgrif Perfformiad Ynni uchaf (EPC A). Cytunodd 85 y cant o denantiaid y dylai'r Safon anelu at y sgôr uchaf. Roedd landlordiaid cymdeithasol wedi'u rhannu i lawr y canol; h.y. 50 y cant yn cytuno a 50 y cant yn anghytuno. Yn gyffredinol, ar draws yr holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, cytunodd 75 y cant o ymatebwyr â'r targed.

Ochr yn ochr ag effeithlonrwydd ynni cynyddol, elfen allweddol y Safon arfaethedig yw gostwng allyriadau carbon o gartrefi. Mae hyn er mwyn cefnogi'r nod o gyflawni Sero Net ar draws tai cymdeithasol erbyn 2033.

Awgryma'r cynigion ddefnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) i gefnogi gwelliannau i effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Mae SAP yn fethodoleg sy'n safon a gydnabyddir yn y diwydiant ac fe'i defnyddir yn gyffredinol ar draws y DU. Fe'i defnyddir i asesu a chymharu perfformiad ynni ac amgylcheddol anheddau. Mae'n helpu i ddarparu asesiadau a all wedyn hysbysu'r sgorau EPC (A-G) a roddir i gartref.

Mae SAP yn cynnwys cyfrifiad ar gyfer ffabrig adeiladu a systemau gwresogi, a safonau gofynnol effeithlonrwydd thermal. Yn gyffredinol, croesawodd ymatebwyr ddefnydd ar fethodoleg SAP yn y Safon, er nodwyd y gallai fod angen ailymweld yn ddiweddarach wrth i'r fethodoleg SAP gael ei diweddarau.

Awgryma'r cynigion ddefnyddio Sgôr Effaith Amgylcheddol (EIR) fel mesur i asesu allyriadau carbon cartrefi. Mae EIR wedi'i seilio ar gyfrifiad o allyriadau carbon blynyddol o wresogi'r cartref a dŵr, awyru a golau, minws allyriadau wedi'u harbed trwy gynhyrchu ynni yn y cartref. Yn gyffredinol, cytunodd 85 y cant o'r holl ymatebion â'r mesur. Er bod y rhan fwyaf o arbenigwyr technegol yn cytuno, roedd 38 y cant yn anghytuno.

EIR 92 yw'r sgôr ar gyfer yr adeiladau mwyaf amgylcheddol effeithlon. Wrth weithio tuag at sero net ar draws tai cymdeithasol, mae'r cynigion yn cynnwys targed o gyflawni cyfartaledd o EIR 92 ar draws cartrefi a reolir gan landlord cymdeithasol. Lle gallai cyflawni EIR 92 o fewn cartref unigol fod yn rhy anodd a/neu'n ddrud, awgryma'r cynigion y gallai landlordiaid cymdeithasol gydbwysu hynny gyda chartrefi mwy effeithlon sy'n cyflawni sgôr uwch, neu fel arall, trwy Fuddion Carbon Cymunedol diffiniedig eraill. Mae hyn yn rhoi dull hyblyg i landlordiaid i gyflawni sero net ar draws eu stoc. Cafwyd cefnogaeth eang gan denantiaid ar gyfer y cynnig hwn, ar 95 y cant a chyrrff cynrychiadol ar 80 y cant. I'r gwrthwyneb, dim ond 25 y cant o landlordiaid cymdeithasol a 38 y cant o arbenigwyr technegol gytunodd â'r targed hwn.

I gyflawni'r targed allyriadau carbon, mae'r Safon arfaethedig yn cynnwys gofyniad i roi'r gorau i osod boeleri tanwydd ffosil o 2026. Mae hyn er mwyn annog y trawsnewidiad i ddŵr poeth a gwresogi mwy amgylcheddol gyfeillgar ac effeithlon mewn cartrefi. Roedd y gwrthwynebiad mwyaf arwyddocaol i'r cynnig gan landlordiaid cymdeithasol, gyda 81 y cant yn anghytuno. Roedd tenantiaid ar y llaw arall yn fwy cadarnhaol, gyda 73 y cant yn cytuno. Yn gyffredinol, o'r holl ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, cytunodd 59 y cant â'r raddfa amser ar gyfer trawsnewid i ffynonellau gwres mwy amgylcheddol gyfeillgar.

Tynnwyd sylw at ddiffyg eglurder o'r tirlun ariannu i gefnogi'r trawsnewidiad gwyrdd o fewn y sector tai cymdeithasol gan ymatebwyr, yn enwedig landlordiaid cymdeithasol, fel rhwystr i gyflawni'r sgôr perfformiad ynni uchaf (EPC A) ar gyfer holl gartrefi cymdeithasol yn y graddfeydd amser arfaethedig. Serch hynny, roedd EPC A yn cael ei ystyried yn gadarnhaol fel targed tymor hwy, cyhyd â bod mesurau ariannu digonol ynghlwm i gyflawni'r ymyraethau sy'n ofynnol i gyrraedd y sgôr uwch.

Cyd-destun ehangach

Mae'r Safon arfaethedig yn cynnwys mesurau i wella effeithlonrwydd dŵr i wella effeithlonrwydd cyffredinol cartrefi. Mae hyn yn cynnwys gosod dyfeisiau arbed dŵr a mesurau eraill wrth newid gosodiadau a theclynnau gosod. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol o'r cynigion (75 y cant). Serch hynny, cynigiodd arbenigwyr technegol, sefydliadau eraill a chyrrff cynrychiadol, y gwrthwynebiad mwyaf tuag at y cynigion (50 y cant, 47 y cant a 38 y cant).

Mae lloriau yn faes ffocws newydd ar gyfer y Safon arfaethedig. Mynegodd denantiaid wrth Lywodraeth Cymru pa mor bwysig yw lloriau drwyddi draw eu cartrefi. Mewn ymateb, awgrymodd y cynigion y dylai'r holl ystafelloedd cyfanheddol, gan gynnwys ystafelloedd gwely a lolfeydd, grisiau a phen grisiau sydd wedi'u lleoli yn y cartrefi gael gorchuddion llawr addas wrth newid tenantiaeth os yw'n ofynnol. Cyrff cynrychiadol a thenantiaid oedd yn cefnogi'r cynigion fwyaf (86 y cant a 81 y cant yn y drefn honno). Landlordiaid cymdeithasol a fynegodd y gwrthwynebiad mwyaf (52 y cant). Yn gyffredinol, cytunodd 74 y cant o'r holl ymatebwyr â'r cynigion.

Themâu allweddol

Hyblygrwydd cynyddol

Cafodd y farn y dylai'r Safon fabwysiadu dull mwy hyblyg tuag at gyflawni'r targedau eu cynrychioli'n eang ar draws y grwpiau rhanddeiliaid. Roedd hyn oherwydd yr her o wella effeithlonrwydd ynni mewn rhai mathau o eiddo o'u cymharu ag eraill. Awgrymodd rhai ymatebwyr, yn enwedig arbenigwyr technegol a landlordiaid cymdeithasol, bod angen i'r Safon ystyried oed yr eiddo. Dylai adeiladau newydd, er enghraifft, fod yn gallu cyflawni sgôr EPC A a gwella effeithlonrwydd ynni yn haws nac eiddo hŷn megis tai teras oes Fictoria.

Ansicrwydd economaidd

Mynegodd ymatebwyr o bobl un o'r grwpiau rhanddeiliaid bryderon yn ymwneud â ffactorau economaidd allanol. Roedd hyn yn cynnwys materion megis chwyddiant, cynnydd mewn prisiau ynni, diogelwch ynni, capasiti'r gadwyn gyflenwi, ansicrwydd y farchnad lafur a phrinder sgiliau.

Rhannodd denantiaid a landlordiaid cymdeithasol yn benodol bryder am chwyddiant cynyddol, costau ynni, a'r argyfwng costau byw. Oherwydd bod amodau economaidd yn gwaethygu, mae'n debygol pe bai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal eto, byddai pwysau yn ymwneud â chostau byw, prisiau ynni ac ansicrwydd economaidd cyffredinol yn dod â'r materion hyn yn gynyddol i frig canfyddiadau'r ymgynghoriad.

Ar gyfer arbenigwyr technegol a landlordiaid cymdeithasol, roedd problemau cadwyn gyflenwi yn bryder allweddol, gan gynnwys prinder deunydd a llafur. Roedd y bwlch sgiliau gyda thai carbon isel hefyd yn bryder allweddol, yn enwedig ar gyfer arbenigwyr technegol. Cyfeiria hyn at brinder y sgiliau sy'n ofynnol i asesu ac ôl-osod eiddo tai cymdeithasol er mwyn iddynt gyrraedd y safonau gofynnol. Mae'r prinder sgiliau ac arbenigedd nid yn unig yn effeithio ar Gymru ond y DU yn ehangach.

Yr angen am ganllawiau pellach

Ceisiodd landlordiaid cymdeithasol yn benodol eglurder pellach ar ariannu a fyddai'n cydfynd â'r Safon arfaethedig. Awgrymodd y canfyddiadau y byddai ariannu ychwanegol yn cefnogi cynllunio ac yn galluogi dealltwriaeth fanylach o ddichonoldeb y cynigion o ran cwmpas a graddfeydd amser.

Mynegodd rai ymatebwyr o'r grwpiau rhanddeiliaid landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid angen am wybodaeth bellach yn ymwneud ag ymatebion cymdeithasol i newid yn yr hinsawdd, a gwybodaeth well yn ymwneud â mesurau ffordd o fyw y gall cartrefi unigol eu mabwysiadu. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys defnydd ynni domestig effeithlon, newid tariff cynhesrwydd fforddiadwy, a defnyddio mesuryddion clyfar.

Ôl-osod

Mae ôl-osod yn cyfeirio at fesurau a gymerir i gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi fel bod defnydd ynni ac allyriadau carbon yn cael eu gostwng. Dylai'r newidiadau hyn hefyd gyfrannu at gartrefi iachach, mwy cyfforddus a biliau ynni is. Tynnodd lawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd dysgu gwersi o [Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio](#) Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd y byddai hyn yn galluogi ymatebion mwy effeithiol i'r Safon arfaethedig. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen gael eu rhannu'n ehangach ar draws y sector.

Roedd arbenigwyr technegol yn benodol, a rhai landlordiaid cymdeithasol, o'r farn gyffredin bod dull ffabrig yn gyntaf i ôl-osod yn angenrheidiol i osgoi biliau ynni cynyddol yn deillio o ddatrysiadau gwresogi gwell (megis pypiau gwres) wedi'u gosod mewn cartrefi ag effeithlonrwydd thermol gwael. Fe'i hystyriwyd yn bwysig gweithredu dilyniant graddol o ôl-osod, lle byddai'n rhaid i gartrefi fod wedi'u hinsiwleiddio'n dda cyn i bympiau gwres gael eu gosod.

Tynnodd rai ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a oedd yn croesawu'r rhesymeg y tu ôl i'r targedau, sylw at bwysigrwydd gosod anghenion tenantiaid wrth wraidd penderfyniadau ar foeleri. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod "dull ffabrig yn gyntaf" yn cael ei gymryd, sy'n golygu gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cyn symud i foeleri carbon isel.

Cyflawni sero net

Croesawyd y cynnig i gyflawni sero net o stoc tai cyfan y darparwr tai yn hytrach nag ar sail eiddo unigol gan lawer o ymatebwyr, yn enwedig cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol. Awgrymodd rai ymatebwyr dull oes gyfan a oedd yn ystyried ôl-troed carbon o ôl-osod y cartrefi eu hunain. Nododd ymatebwyr yr angen i osod Mesuryddion Clyfar mewn eiddo tai cymdeithasol. Nododd arbenigwyr technegol y byddai data a gynhrychir gan ddefnydd ynni domestig mewn cartrefi yn cefnogi landlordiaid cymdeithasol wrth flaenoriaethu mesurau a chynnal gwelliannau effeithlonrwydd ynni wedi'u targedu.

Er bod ymatebwyr yn cydnabod nad ydynt yn berffaith, a chyflwynwyd sawl datrysiad fel opsiynau amgen (megis defnyddio dull cilowat yr awr), cafwyd teimlad clir mai dulliau EPC a SAP oedd yn cael eu hystyried gan ymatebwyr fel yr offeryn gorau ar gael. Ystyriwyd mai dyma'r ymdriniaeth gywir o ystyried lefel y safoni a chydnabyddiaeth eang ar draws y DU.

Serch hynny, nododd arbenigwyr technegol y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio methodoleg SAP, megis sicrhau gradd o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd yn y dyfodol o gynnwys mesurau eraill neu fetrigau amgen wrth iddynt esblygu. O'r safbwyntiau hyn, ystyriodd arbenigwyr technegol fod dull SAP/EPC yn gyfyngedig yn ei allu i dywys ymatebion oherwydd ei fod yn modelu effeithlonrwydd ynni cartref yn erbyn set o feincnodau nad ydynt o bosibl yn oddrychol. Awgrymodd rai ymatebion, yn enwedig gan y grwpiau arbenigwyr technegol a sefydliadau cynrychiadol, bod angen cynnwys dangosyddion iechyd a llesiant ochr yn ochr â mesurau technegol i gyflawni effeithlonrwydd ynni a gostwng carbon. Nododd arbenigwyr technegol hefyd angen i ganiatáu gradd o hyblygrwydd er mwyn caniatáu gwreiddio technolegau carbon isel newydd wrth iddynt ddatblygu, er enghraifft technoleg cymysgu hydrogen.

Blaenoriaethau yn ôl grŵp rhanddeiliaid

Tenantiaid

Ar gyfer tenantiaid a'u cynrychiolwyr, cydnabuwyd uchelgais y cynigion ac fe'u croesawyd. Roedd y pwyslais ar wella ansawdd ac effeithlonrwydd tai cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi fel ystyriaeth bwysig o'r Safon i wella llesiant tenantiaid.

Cafwyd cefnogaeth helaeth i gylch gwaith wedi'i ehangu'r Safon, megis ceisio gwella perfformiad ynni a lloriau. Teimlodd rai tenantiaid y gallai'r cynigion fynd ymhellach ac yn gynt. Ar y cyfan, awgrymodd hyn ymhlith y tenantiaid bod y Safon arfaethedig yn adlewyrchu eu buddiannau a'u pryderon yn ymwneud ag ansawdd cartrefi cymdeithasol.

Landlordiaid Cymdeithasol

Cydnabu landlordiaid cymdeithasol y rhesymeg a'r amcanion y tu ôl i'r Safon arfaethedig. Teimlodd lawer, serch hynny, bod y cynigion yn rhy uchelgeisiol. Cododd landlordiaid cymdeithasol ystod o oblygiadau a chyfyngiadau strategol, gweithredol ac ariannol posibl a allai gyflwyno heriau wrth fodloni'r Safon arfaethedig.

Roedd yr ymateb arfaethedig i'r gofynion datgarboneiddio, gan gynnwys wrth gyflawni EPC A ac EIR 92 erbyn 2033, yn cael ei ystyried yn her benodol gan landlordiaid cymdeithasol. Nodwyd serch hynny nad yw SAP EIR 92 yn gyfwerth â sero net, ond mae'n helpu i ddiffinio targedau sy'n cyfrannu tuag at gyflawni sero net. Serch hynny, heb ariannu ychwanegol sylweddol neu ehangu'r graddfeydd amser yn ymwneud â gweithredu, teimlodd lawer y gallai hyn arwain at weithredu aneffeithiol neu aneffeithlon.

Mynegodd rai ymatebwyr bryderon y gallai'r Safon arfaethedig arwain at rai landlordiaid yn dilyn "llwybr o'r gwrthwynebiad lleiaf." Mae hyn yn golygu heb gymhelliant digonol, yn syml fe allent ddod i'r casgliad ei bod yn fwy cost-effeithiol cael gwared ar eiddo hŷn sy'n gofyn am lawer o waith a chostau i fodloni'r sgôr EPC A.

Rhanddeiliaid Eraill

Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, grwpiau amgylcheddol, a chyrrff cyhoeddus ehangach yn cyflwyno darlun mwy cymysg. Croesawodd grwpiau amgylcheddol, er enghraifft, bwyslais cynyddol ar ddatgarboneiddio ac roedd ymatebion yn pwysu tuag at safbwynt y gallai'r cynigion fynd ymhellach ac yn gynt.

Roedd grwpiau eraill, gan gynnwys cyrrff proffesiynol, yn mynegi pryderon yn ymwneud â rhwystrau at gyllid a phrinder sgiliau a allai gyfyngu ar ymatebion i'r cynigion.

Cefnogaeth rhanddeiliaid dros yr WHQS2023

Tynnodd yr ymatebion sylw ar draws y grwpiau rhanddeiliaid, bod cefnogaeth glir dros ddiffiniad wedi'i ehangu o dai cymdeithasol a'r hyn y mae'r Safon yn ceisio'i chyflawni. Awgryma'r canfyddiadau bod y cysylltiad y mae'r cynigion yn eu gwneud rhwng tai o ansawdd uchel a gwell canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu cydnabod a'u croesawu ar draws y grwpiau rhanddeiliaid.

Roedd y canfyddiadau yn adlewyrchu synnwyr gwirioneddol o gydnabyddiaeth ar draws y grwpiau rhanddeiliaid o'r angen i weithio ar y cyd i symud tuag at Gymru fwy cynaliadwy. Cydnabuwyd bod y Safon yn ceisio gyrru hyn ymlaen. Cafodd ffocws y Safon sy'n canolbwyntio ar y tenant ei gydnabod yn eang a'i ystyried yn sylfaen gadarnhaol i'r Safon a symud tuag at gartrefi iachach, mwy cyfforddus, mwy effeithlon a mwy cyfeillgar yn amgylcheddol.

Atodiad: Ymatebion Sefydliadol

Rhestrâ'r adran hon y sefydliadau a gyfrannodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

Adra	NIBE Energy Systems UK
Age Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Archwilio Cymru	Tai Gogledd Cymru
BARCUD Cyf	Cyngor Sir Penfro
Grŵp Monitro Barcud	Grŵp Pobl
Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol	Cyngor Sir Powys
Betsi Cadwaladr	Grŵp PYC
Cymdeithas Tai Bro Myrddin	RDE Ltd
Tai Cymunedol Bron Afon	RHA Cymru
Cadw, Llywodraeth Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	RNIB Cymru
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
Cyngor Caerdydd	Grŵp Sero
Care and Repair Cymru	Severn Trent Water
Cyngor Sir Caerfyrddin	Shelter Cymru
Cartrefi Conwy	Solar Energy UK
Sefydliad Tai Siartredig Cymru	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
CITB Cymru	Cymdeithas Ynni Cynaliadwy
ClwydAlyn Housing Ltd	Cyngor Abertawe
Coastal HA	Tai Pawb
Tai Cymdeithasol Cymru	Tai Tarian
Cyngor Defnyddwyr Cymru	The Bevan Foundation
Cycling UK (cyclinguk.org)	Sefydliad Siartredig Adeiladu
Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf	TPAS Cymru
Cyngor Sir Dinbych	TPR Financial Ltd
Dŵr Cymru Welsh Water	Trivallis
Elmhurst Energy Ltd	UK Finance
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	Cyngor Bro Morgannwg
FCHA	Tai Cymoedd i'r Arfordir
Cyfeillion y Ddaear Cymru	Cymdeithas Tai Wales & West
Grŵp Cynefin	Plaid Werdd Cymru
Hafod	Water Regs UK Limited
Cyngor Sir Ynys Môn	Waterwise
Kingspan Insulation Ltd	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Linc Cymru	Woodknowledge Wales
MAWW FRS	

Sefydliad Elusennol MCS
Cymdeithas Dai Melin
Cyngor Sir Fynwy
Cymdeithas Dai Sir Fynwy
Cymdeithas Inswleiddio Genedlaethol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Dai Newydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cysylltwch â ni



0330 122 8658



wavehill@wavehill.com



wavehill.com

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol



[@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



[wavehill](https://www.linkedin.com/company/wavehill)